

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH,

14eg Tachwedd 2023 YN Y GANOLFAN TALYSARN AM 7.00YH

1. **Presennol** - Ceri Owen (Cad), Judith Humphreys, Dylan Herbert, Erfyl Williams, Barry Bracegirdle (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Christine Hughes (Llanllyfni) Dafydd Thomas (Nebo) Siân Dafydd, Gareth Jones, Harry Owen (Talysarn) Ffion Jones (Nantlle).

Roedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Ymddiheuriadau -derbyniwyd ymddiheuriadau gan Justin Davies (Penygroes) a Peter Bridges (Talysarn). Roedd Justin Davies wedi ymddiheuro nad oedd am fod yn bresennol yn y cyfarfodydd am weddill y flwyddyn oherwydd rhesymau meddygol.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes Ceri Owen.

2. **Datgan Buddiant** - Judith Humphreys a Gareth Jones yn datgan buddiant yn nhrefodaeth Tir Cwtin (pwynt 3 ar yr agenda) - nododd y gadeiryddes nad oedd am ofyn iddynt adael y cyfarfod ond pwysleisiodd nad oeddynt i roi unrhyw farn ar y mater dan sylw yn ystod y drafodaeth. Christine Hughes - Ceisiadau cynllunio (pwynt 12). Nia Jones (Clerc) datgan buddiant ym mhwynt 9 - Cyflog Clerc. Siân Dafydd datgan buddiant ym mhwynt 10 - mynwentydd gan fod aelod o'r teulu wedi codi cwestiwn ynglŷn â phlot ganddynt.

3. **Tir Cwtin** - Diolchodd y gadeiryddes yn fawr iawn i bawb o'r Cyngor Cymuned am eu gwaith ychwanegol ynglŷn â hyn dros yr wythnosau diwethaf. Mae llawer iawn o oriau a gwaith wedi mynd fewn i'r mater hwn. Yn dilyn rhannu holiaduron allan i gartrefi Penygroes i gael barn y trigolion ar ddyfodol Tir Cwtin, derbyniwyd 133 o ymatebion. Bu i rai o aelodau'r cyngor gyfarfod i gyfri'r holiaduron a gweld beth oedd barn y trigolion. Roedd dau aelod o Bwyllgor Cwtin yn bresennol yn y cyfrif ond nid oedd neb o'r Orsaf. Canlyniad y cyfrif oedd Yr Orsaf = 16, Pwyllgor Cwtin = 111, Arall = 6. O'r ymateb hyn cynigwyd bod y brydles am Dir Cwtin yn cael ei roi i Bwyllgor Cwtin er mwyn ei wneud yn gae chwarae amlbwrpas i Benygroes. Eiliwyd y cynnig hwn a chytunodd pawb a oedd yn bresennol ac a oedd yn cael rhoi sylw ar y mater. Pwysleisiwyd nawr y bydd y Cyngor Cymuned yn cael cyngor cyfreithiol ar hyn wrth symud ymlaen a chynigwyd y dylai Pwyllgor Cwtin wneud yr un fath - ond wrth gwrs mae hyn yn benderfyniad iddynt hwy ei wneud fel pwyllgor. O ran costau cyfreithiol cynigwyd ac eiliwyd y buasai raid i Bwyllgor Cwtin dalu'r holl gostau fydd yn codi o hyn. Rhoddwyd cynnig i'r pwyllgor ofyn unrhyw gwestiynau ar y pwynt yma - diolchodd cadeiryddes Pwyllgor Cwtin yn fawr iawn i'r Cyngor Cymuned am dderbyn eu cais. Gofynnwyd i'r clerch lythyru'r Pwyllgor yn swyddogol am hyn a hefyd llythyru'r Orsaf am y penderfyniad. Bu i aelodau'r cyhoedd adael y cyfarfod.

4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 10fed Hydref 2023** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

5. **Materion yn codi o'r cofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd** - gofynnwyd i bawb yrru unrhyw beth maent eisiau ei godi gyda PCSO Gethin Jones sydd yn do di gyfarfod mis Rhagfyr am sgwrs er mwyn i'r clerch yrru y materion iddo ymlaen llaw. Dim byd wedi digwydd gyda'r bin sbwriel tu allan i rif 12 Stryd Fawr - angen dilyn fyny ar hyn. Adroddwyd y bydd y golau Nadolig yn cael eu gosod wythnos yn dechrau 27ain Tachwedd. Adroddwyd bod dau le am ddim ar rai o'r modiwlau hyfforddi - os oes rhywun gyda diddordeb yna gadael i'r clerch wybod. Parcio mynedfa Pant Du - angen cysylltu

gyda pherchnogion Pant Du i ofyn iddynt yrru tystiolaeth o'r parcio ymlaen i Gyngor Gwynedd. Derbyniwyd e-bost ynglŷn â'r pant yn y ffordd wrth y Co-op yn dweud y bydd gwaith yn cael ei wneud er mwyn cywiro lefel wyneb y ffordd yno. Nodwyd y bydd angen edrych ar bolisiau'r Cyngor Cymuned yn fuan (mis Ionawr). Llwybr 96 - e-bost gan Gyngor Gwynedd yn adrodd gobeithio y bydd modd gweithio gyda thîm o wirfoddolwyr i wella'r llwybr. Elusen draenogod - adroddodd Dafydd Thomas bod yna le yn Nebo sydd yn derbyn draenogod - Dafydd am edrych fewn i hyn a chael manylion er mwyn gyrru'r arian (£150) iddynt fel trafodwyd.

6. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir – nid oedd adroddiadau wedi eu derbyn y mis hwn.

7. Materion Pentrefi - Diolchwyd i'r cynghorwyr a wnaeth fynychu gwasanaethau Sul Y Cofio. **Talysarn** - twll ar ben Lôn Yr Eglwys angen sylw. Dipyn o fawr ci yn cael ei adael o gwmpas. Llwybrau o gwmpas y cae pêl-droed wedi troi yn fwd ar ôl peiriannau trwm. Gofyn i Gyngor Gwynedd ddod yno i wella arwynebedd y llwybrau. **Penygroes** - fflatiau Cae Catrin - y llwyni drain wedi tyfu allan i'r palmant ac angen ei dorri - Ceri am gysylltu gydag ADRA am hyn. Cae Capel Bach - coed yn tyfu allan i'r ffordd - Christine am gysylltu gyda Grŵp Cynefin am hyn. Twll yn y ffordd wrth Gapel Bethel angen sylw brys. Y twll yn y ffordd o flaen Wynnstay yn gwaethygu ac angen sylw brys. Gyli ar y dde wrth gylchdro Penygroes / Llanllyfni yn llawn dŵr ac angen ei lanhau. Hefyd gyli ar Lôn Eglwys wrth Drem Yr Wyddfa angen ei lanhau ac angen dilyn fyny ar y mater sydd wedi ei godi ynglŷn â'r gyli yn y maes parcio dros ffordd i'r Co-op. **Llanllyfni** - y twll yn Lôn Ddŵr wedi suddo eto. Twll yn y ffordd wrth Fynwent Gorffwysfa angen sylw. **Nebo** - Allt Pant Y Gog yn dirywio ac angen sylw brys. Wal gerrig Ffordd Nasareth - er wedi ei hatgyweirio ers peth amser mae yna dal gerrig a cons ar y ffordd yno. Angen holi Cyngor Gwynedd pryd bydd y Tîm Tacluso yn dod i'r ardal.

7.50pm – Ffion Jones gadael y cyfarfod.

8. Cyfarfodydd is-bwyllgorau / cyfarfodydd yn ystod y mis - cafwyd cyfarfod ar 13eg Tachwedd i gyfrif canlyniadau holiaduron dyfodol Tir Cwtin - hyn wedi ei adrodd ym mhwynt 3.

9. Taflen ariannol a chyllid – roedd pawb wedi derbyn copi o'r gyllideb i edrych drosto – nid oedd dim yn codi. Bu i'r clerch adael y cyfarfod tra roedd y cynghorwyr yn trafod cyflog y clerch.

10. Llwybrau a Mynwentydd - adroddwyd bod llyfrau ac ysgrifau'r mynwentydd wedi eu derbyn. Gofyn i'r contractwyr glirio'r gornel yn Macpela yn unol â'r pris sydd wedi ei dderbyn ganddynt. Bu i Siân adael y cyfarfod tra trafodwyd llythyr a oedd wedi ei dderbyn gan deulu sydd wedi prynu plot ym Mynwent Macpela ers rhai blynyddoedd yn gofyn am ganiatâd i werthu'r plot i rywun arall o'r teulu. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd os mai i aelod o'r un teulu y maent am ei werthu yna nid oedd gwrthwynebiad - ond bydd angen codi ffi o £30 er mwyn newid y manylion ar y gofrestr mynwentydd. Daeth Siân yn nôl i'r cyfarfod. Dim ymateb wedi ei dderbyn gan TJ Construction ynglŷn â'r chwyn sydd yn tyfu trwy'r tarmac yn Fynwent Macpela - y clerch i ddilyn fyny ar hyn eto.

11. Ystafelloedd newid CPD Talysarn Celts – nid oedd dim wedi ei dderbyn am hyn felly dim i'w drafod.

12. Ceisiadau cynllunio –

Bu i Christine adael yr ystafell wrth drafod y cais hwn - C23/0862/22/LL - Tŷ Bradford, Llanllyfni - newid defnydd adeilad allanol yn salon trin gwallt - DIM GWRTHWYNEBIAD. Adroddwyd bod Uned

yr Amgylchedd wedi dangos pryder ynglŷn â sŵn a allai fod yn dod o'r adeilad gan sychwr gwallt - angen adrodd bod angen cefnogi person ifanc lleol o'r pentref sydd yn ceisio ei gorau. C23/0876/22LL - 1 Ffordd Clynnog, Penygroes - addasu ac ymestyn tŷ a cyn siop yn 3 tŷ - DIM GWRTHWYNEBIAD.

13. Cors Y Llyn - dod a'r gors nôl i gyflwr da - e-bost wedi ei dderbyn gan Barc Cenedlaethol Eryri am hyn - darllenwyd yr e-bost ac adroddodd Dafydd ar gyflwr a sefyllfa'r gors ar hyn o bryd. Gofynnwyd a oes modd chwilio am ddogfennau sydd yn bodoli am y gors. Nid oedd dim gwrthwynebiad i'w cymorth a chytunodd Dafydd i fod yn bwynt cyswllt gyda nhw ar y mater

14. Gohebiaeth – nid oedd dim yn codi o'r ohebiaeth a oedd wedi ei basio ymlaen i'r cynghorwyr yn y mis diwethaf.

15. Materion ariannol - cytunwyd i dalu'r pethau ar yr agenda. Nia Jones ffôn a rhyngrwyd £25. Nia Jones stampiau £10. Canolfan Talysarn £200. Designer Signs £55.20. Lite £1863.

16. Unrhyw fater arall - Adroddwyd ynglŷn â'r cwyn ffurfiol a dderbyniwyd gan Bwyllgor Cwtin ac mewn cyfarfod caeedig o'r Cyngor Cymuned ar 9fed Tachwedd ffurfiwyd ymateb ffurfiol i'r gwyn ac fe'i gyrrwyd iddynt ar 13eg Tachwedd. Hefyd yn yr un cyfarfod trafodwyd e-bost a oedd wedi ei dderbyn gan Yr Orsaf ac fe ffurfiwyd ymateb iddynt a'i yrru.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 12fed Rhagfyr 2023 am 7.00 o'r gloch yn Ganolfan Talysarn.